Bioddiogelwch Gwaredu BVD

01554 748 576 ahww.cymru

Wrth brynu gwartheg, prynwch stoc o fuchesi lle mae'r risg o BVD yn isel - Cadwch lygad am dystysgrif Efydd, Arian ac Aur Gwaredu BVD neu eu statws CHeCS.

Ynyswch wartheg sy'n dod yn ôl i'r fferm. Os gwnaethoch brynu o fuches â statws BVD anhysbys, mae siawns uwch y bydd yr anifail / anifeiliaid wedi eu Heintio'n Barhaus (PI). Dylai gwartheg sy'n dychwelyd o sioeau hefyd gael eu hynysu.

Ystyriwch gwarantîn i wartheg sydd yn dod i mewn i'r fuches am 4 wythnos os yn bosib. Cadwch wartheg sy'n dod i mewn ir fferm mewn siediau ar wahân , lle nad ydyn nhw'n rhannu gofod awyr, cyswllt trwyn i drwyn, dŵr na draeniad â gwartheg presennol.
Os nad yw hyn yn bosib ceisiwch gadw'r anifeiliaid mewn corlannau ar wahân ac ystyried rhoi rhwystr rhwng y gwartheg newydd a'r gwartheg presennol - gall rhoi byrnau o wellt rhwng y gwartheg newydd a'r gwartheg presennol i leihau'r siawns o gyswllt trwyn i drwyn.

Wrth brynu gwartheg lle nad yw statws BVD y gwerthwyr yn hysbys; gall profi anifeiliaid wrth gyrraedd y fferm am firws antigen BVD (gwaed neu tagio am feinwe) roi arwydd cynnar a yw'r anifail wedi'i heintio â BVD. Os daw'r prawf yn ôl yn bositif, gall profi eto ymhen 3 wythnos sicrhau nad anifail heintiedig dros dro yn unig oedd yr anifail gan roi canlyniad positif yn y prawf cyntaf.



Rheolau Pori

Mae'n syniad i osgoi pori gwartheg gyda gwartheg o statws BVD anhysbys - ceisiwch gadw o leiaf 3 metr rhwng y caeau maen nhw'n pori ynddynt er mwyn osgoi cyswllt trwyn i drwyn. Os yw gwartheg yn pori tir lle mae gwartheg o statws anhysbys wedi bod yn pori; ceisiwch osgoi pori gyda gwartheg am 2 fis.

Brechu

Ystyriwch ddefnyddio brechiad i amddiffyn eich buches. Gall brechu'r fuches gyfan leihau'r risg o loia anifail PI i'r fuches yn sylweddol. Sicrhewch eich bod yn gwneud yr holl heffrod a'r brechiad cychwynnol cyn i'r heffrod fynd at y tarw a rhoi brechiad blynyddol i'r fuches cyn tarwa.

Hylendid

Lle bo modd, cyfyngwch a rheolwch pobl a cherbydau sy'n ymweld a'r fferm.
Ystyriwch ble maen nhw wedi bod o'r blaen cyn iddyn nhw ddod i'r fferm.
Sicrhewch fod 'pressure washer', brwsys, pibellau, dŵr a diheintydd ar gael, gwnewch i ymwelwyr eu defnyddio.

Colostrwm

Os ydych chi'n cael colostrwm o fferm arall gwnewch yn siŵr eu bod yn rhydd o BVD. Ystyriwch storio colostrwm o wartheg heb BVD yn eich buches, os oes angen ei gadw am gyfnod hirach gellir ei rewi mewn dognau 2l.

Dŵr

Cyflenwch dŵr yfed ffres glân mewn cafnau sy'n cael eu llenwi o'r prif gyflenwad dŵr - ceisiwch osgoi ffynonellau naturiol e.e. nentydd / afonydd lle gallai gwartheg fod wedi bod yn pori i fyny'r nant. Ystyriwch ffensio stoc i ffwrdd o nentydd ac afonydd.

Bwydo a Gwellt

Sicrhewch nad yw porthiant a gwellt wedi'u halogi gan dda byw eraill. Cadwch dda byw i ffwrdd o slyri sydd wedi'i wasgaru'n ddiweddar.

Offer

Sicrhewch bod offer yn cael ei ddiheintio gan ddefnyddio diheintydd priodol ar ôl pob defnydd. Os ydych chi'n rhannu neu'n benthyca offer e.e. 'crush' gwartheg, diheintiwch cyn ac ar ôl eu defnyddio.
Dylai holl offer milfeddygol gael eu ddiheintio cyn eu defnyddio.

Semen

Prynwch eich semen o ffynhonnell dibynadwy fel cwmnïau AI.

Parhewch i sgrinio stoc ifanc am BVD ar eich fferm bob blwyddyn trwy'ch milfeddyg. Dylid cynnwys hyn yn eich cynllun iechyd ir fuches.

Gyda diolch i Moredun Research Institute am y lluniau